# Fffermio Organig



*Llun: Jeremy Moore*

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu egwyddorion sylfaenol ffermio organig ac yn egluro'r broses drosi, gan gynnwys y grantiau a'r cymorth arall sydd ar gael. Fe'i cynhyrchwyd gan Ganolfan Organig Cymru, sy'n cydlynu'r cyngor a'r wybodaeth a ddarperir i ffermwyr.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Cyllidir y Ganolfan gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r EAGGF.
Fe'i lleolir ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ac fe'i rheolir ar y cyd gan ADAS, Canolfan Ymchwil Elm Farm, Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), Sefydliad y Gwyddorau Gwledig (PCA) a'r Soil Association.

**Gyda'n gilydd fe allwn ni wneud gwahaniaeth**

**Canolfan Organig Cymru**
**Organic Centre Wales**

Canolfan Ffermio Organig Cymru
Sefydliad Astudiaethau Gwledig
Prifysgol Cymru Aberystwyth
Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 622248
Ffacs: 01970 622238
Ebost: organic@aber.ac.uk
www.organic.aber.ac.uk

GWASANAETH
GWYBODAETH
TROSIADAU
*Organig*

**Llinell Gymorth**
**Ffôn: 01970 622100**
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Gall galwadau gael eu monitro er mwyn hyfforddiant.

## Elfennau allweddol systemau ffermio organig

*Prif elfennau system ffermio organig yw defnyddio cylchdro cnydau a dulliau eraill ar hwsmonaeth i gynnal ffrwythlondeb a rheoli chwyn, plâu ac afiechydon, a thrwy hynny osgoi defnyddio gwrtaith a phlaleiddiaid artiffisial. Mae da byw yn rhan annatod o lawer o'r systemau hyn, yn ailgylchu maetholion ar ffurf tail ac yn cynnal ffrwythlondeb y pridd o ganlyniad i hynny. Trwy ddefnyddio llai o elfennau allanol a thrwy gynnal systemau sydd ddim yn golygu ffermio dwys, y mae ffermio organig yn amcanu at warchod yr amgylchfyd, diogelu lles anifeiliaid ac ansawdd bwyd, a chyfnerthu economïau lleol.*

### Cylchdroeon cnydau

Mae cylchdro cnydau sydd wedi ei lunio a'i weithredu'n gywir yn gwbl sylfaenol i gynhyrchiad cnydau organig. Mae'r cylchdro yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- Darparu maetholion digonol ar gyfer cnydau a lleihau colledion
- Darparu nitrogen drwy gnydau codlysol
- Amcanu at leihau a helpu i reoli chwyn, plâu ac afiechydon
- Cynnal sylwedd organig, actifedd microbig a strwythur y pridd
- Darparu allgynnyrch proffidiol o gnydau a/neu dda byw organig
- Ar ffermydd glaswellt, gellir cyflawni amrywioldeb mewn porfa barhaol ac mewn porfa fras, lled-naturiol ac, felly, gellir gweld y rhain fel opsiynau eraill yn lle cylchdroeon.

### Maethu cnydau

Fel rheol, mae tail anifeiliaid, nitrogen codlysol a gwrtaith glas yn darparu ffrwythlondeb. Nod y system organig yw bod yn hunangynhaliol er, mewn ambell achos, efallai y bydd angen defnyddio gwrteithiau organig neu gynhyrchiol mwynol fel ffosffad craig a chalch i wella ffrwythlondeb y pridd.

### Diogelu cnydau

Rheolir plâu, chwyn ac afiechydon drwy gylchdroeon, y dewis o amrywogaethau, pryd y meithrinnir cnydau, a thrwy reoli cynefinoedd i annog ysglyfaethwyr naturiol. Os nad yw'r mesurau hyn yn llwyddo, gellir defnyddio nifer cyfyngedig o sylweddau cymeradwy o dan reolaeth.

### Da byw

Mae da byw yn rhan hanfodol o'r mwyafrif llethol o ffermydd organig, er bod rhai systemau llwyddiannus heb dda byw hefyd i'w cael. Mae mentrau da byw organig yn dibynnu ar adnoddau'r fferm ei hun i raddau helaeth ac wedi ei seilio ar y tir, h.y. nid systemau neu stoc wedi eu cartrefu'n ddwys lle mae'n rhaid dod â chyfran helaeth o'r porthiant i mewn a chludo tail ymaith o'r fferm i gael gwared arno. Gellir trosi y rhan fwyaf o ffermydd llaeth, cig eidion a defaid i system organig, pe gwneir newidiadau priodol i'r modd y porthir ac y cartrefir anifeiliaid. Bydd moch a dofednod yn cael eu magu yn llai dwys o dan system organig, gyda mynediad i'r awyr agored.

Mae safonau organig yn mynnu bod y dogn porthiant yn gwbl organig, a bod o leiaf 60% o'r sylwedd sych ar gyfer defaid a gwartheg yn dod o borthiant ffres neu borthiant wedi ei gadw. Fodd bynnag, os nad yw ffermwyr yn gallu dod o hyd i borthiant organig, cânt ddefnyddio cyfran arbennig o borthiant nad yw'n organig (5% ar gyfer defaid a gwartheg ac 15% ar gyfer moch a ieir), ond y mae'n rhaid iddynt ddangos (i'w corff ardystio) pam fod angen iddynt wneud hynny. Mae pob system organig yn dibynnu ar feillion yn y glaswellt ac y mae cyfraddau stocio yn debygol o fod yn llai nag unedau confensiynol, yn dibynnu ar lefelau blaenorol o nitrogen a ddefnyddiwyd ar y fferm.

Yn gyffredinol, y nod yw cynnal preiddiau a gyrroedd caeedig, a bridio a magu anifeiliaid sydd i gymryd lle anifeiliaid eraill lle'n bosibl, ond ceir cyfleoedd i brynu a gwerthu stoc bridio a chadw i gynhyrchwyr organig eraill. Rhaid i bob anifail a leddir am ei gig fod wedi ei eni a'i fagu ar fferm organig, felly, ni ellir gwerthu lloi neu anifeiliaid stôr a gaed o fferm gonfensiynol fel rhai organig.

### Iechyd anifeiliaid

Mae iechyd anifeiliaid o fewn systemau organig yn dibynnu ar hwsmonaeth dda a rheolaeth ataliol. Ni chaniateir defnyddio gwrthfiotigau, powdrau llyngyr a brechlynnau yn rheolaidd, er bod cynhyrchion arbennig yn cael eu caniatáu ar ffermydd lle ceir problem amlwg. Gellir ac, yn wir, y mae'n rhaid defnyddio moddion confensiynol pan fo angen er mwyn atal salwch neu ddioddefaint hir. O dan safonau organig, y mae angen cyfnodau diddyfnu hirach ar gyfer pob meddyginiaeth, ac y mae cyfyngiadau ar faint o weithiau y gellir defnyddio triniaethau confensiynol. Anogir y defnydd o homeompathi ac y mae cynllun rheoli iechyd yn angenrheidiol.

### Safonau

Mae safonau ar gyfer ffermio, garddwriaeth a phrosesu bwyd drwy fodd organig yn amodol ar reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn y DU, cânt eu rheoleiddio gan DEFRA, o dan arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol ar Safonau Organig (*ACOS*). Cyflawnir yr arolygu a'r ardystio gan 10 o gyrff ardystio cymeradwy, ac y mae saith ohonynt yn gweithio yng Nghymru (gweler y rhestr cysylltiadau, tudalen 8). Mae cynlluniau cyffelyb yn awr yn cael eu gweithredu mewn llawer o wledydd eraill ledled y byd. Dim ond cynnyrch wedi ei ardystio a werthir fel cynnyrch 'organig' yn yr Undeb Ewropeaidd.

### Trosi

Mae'r cyfnod trosi ar gyfer tir yn ddwy flynedd o leiaf ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'n rhaid ei fonitro a'i reoli'n organig. Bydd yn rhaid i chi benderfynu ar strategaeth drosi, er enghraifft, a ddylech drosi'r tir a'r stoc ar yr un pryd neu drosi'r stoc ar ôl i'r tir gaffael statws organig, ac a ddylech drosi eich tir i gyd ar yr un pryd neu mewn sawl cam. Erbyn hyn y mae'n rhaid i chi baratoi cynllun trosi ysgrifenedig, gan gynnwys cynlluniau cnydio, cylchdroeon a chynllun rheoli da byw. Rhoddir cyngor arbenigol gan Gyswllt Ffermio a chynghorwyr preifat er mwyn eich helpu i ddatblygu'r cynllun hwn a chael eich traed tanoch.



## Y Cynllun Ffermio Organig

Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweinyddu Cynllun Ffermio Organig a gyflwynwyd yn 1999 fel olynydd i'r Cynllun Cymorth Organig, gyda'r amcan o gynyddu'r ardal a neilltuwyd i ffermio organig yng Nghymru. Fel arfer, y mae unrhyw un sy'n ffermio naill ai fel perchennog neu denant, ac nad yw ei dir eto wedi ei drosi i gynhyrchu organig, yn gymwys. Mae unrhyw dir amaethyddol yn gymwys, gan gynnwys tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu tir âr, tir a ddodwyd o'r neilltu (ar wahân i dir nas defnyddir at ddibenion amaethyddol neu a ddefnyddir i dyfu cnydau nad yw'n borthiant), garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu hadau, ffermio llaeth neu fridio a chadw da byw, tir pori, gweundir, gerddi marchnad neu feithrinfa, neu dir a ddefnyddir fel coetir, megis coetir ar gyfer porthi anifeiliaid.

Os am fod yn rhan o'r Cynllun, rhaid gwneud cais i gofrestru o leiaf un hectar o dir. Cyfyngir taliadau i 300 hectar yn achos tir caeedig, ond nid oes unrhyw gyfyngiad ar dir agored neu goetir ar gyfer pori.

Mae'r cynllun yn golygu cytundeb 10 mlynedd, a cheir cyfle i dynnu'n ôl heb gosb ym mlwyddyn 5. Dylid ystyried y taliadau yn y pum mlynedd cyntaf fel cyfraniadau tuag at gostau trosi, tra bo'r ail gyfnod, sef y taliadau cynnal, yn gydnabyddiaeth o'r buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol a ddaw yn sgil ffermio organig. Gwneir y taliadau ar sail faint o hectarau o dir sydd dan sylw (gweler y Tabl isod), gyda'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei dalu yn y blynyddoedd cyntaf pryd y mae costau'r trosi ar eu huchaf.

At hynny, ceir cyfandaliadau ychwanegol o £300, £200 a £100 yn eu tro yn ystod y tair blynedd gyntaf er mwyn cyfrannu at gostau cyngor, hyfforddiant a chofrestru.

Gwahoddir ffermwyr a ymunodd â'r Cynllun Ffermio Organig cyn i'r cynllun cynnal gael ei gyflwyno i ymestyn eu cytundebau ar ddiwedd y 5 mlynedd. Bydd y rheini sydd wedi trosi heb gymorth yn gymwys i gael taliadau cynnal blynyddol (Blynyddoedd 6-10 yn y tabl isod).

Mae'n bosibl cyfuno'r Cynllun Ffermio Organig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill, megis Tir Gofal a Tir Cynnal, ESA neu gytundebau Tir Cymen, er bod rhai cyfyngiadau. Er enghraifft, gan fod y Cynllun Ffermio Organig a Thir Gofal yn anelu at yr un buddiannau amgylcheddol, bydd y taliadau ar un ohonynt yn cael eu gostwng rhyw gymaint os ydych yn gwneud cais am y ddau.

Cyn gwneud cais am y Cynllun, bydd yn rhaid i chi benderfynu ar gynllun trosi a chofrestru eich tir gyda chorff ardystio cofrestredig. Byddwch wedyn yn gwneud cytundeb â Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn rhedeg am leiafswm o bum mlynedd am bob darn o dir y gwneir cais amdano, a bydd union hyd y cytundeb yn dibynnu ar eich amserlen trosi. Byddwch yn derbyn gwybodaeth bellach a manylion ynglŷn â sut i wneud cais i'r Cynllun ar eich ymweliadau OCIS (gweler isod). I dderbyn llyfryn eglurhaol a phecyn cais Cynllun Ffermio Organig Cymru, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru neu swyddfa ranbarthol y Cynulliad.

| **Math o dir** | **£ yr hectar** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bl. 1 | Bl. 2 | Bl. 3 | Bl. 4 | Bl. 5 | Bl. 6-10 | Cyfanswm |
| Tir sy'n gymwys am AAPS a thir dan gnydau parhaol | 225 | 135 | 50 | 35 | 35 | 35 | 480 |
| Tir amgaeëdig | 175 | 105 | 40 | 35 | 35 | 35 | 390 |
| Tir heb ei gau/coetir sy'n cael ei bori | 25 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 65 |

# Sut ddylwn i fynd ati i drosi?

**Cam 1:**
Cysylltwch â Llinell Gymorth Canolfan Organig Cymru i gael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Trosiadau Organig (*Organic Conversion Information Service (OCIS)*) (01970 622100)

> *Lluniwyd OCIS i helpu ffermwyr i ddeall goblygiadau technegol trosi, fel y gallwch wneud penderfyniadau cytbwys wrth ystyried a ddylech drosi'r fferm ai peidio. Mae'n wasanaeth rhad ac am ddim a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd pecyn gwybodaeth, a hyd at ddau ymweliad â'ch fferm gan gynghorwr organig arbenigol, yn helpu i chi benderfynu ai ffermio organig yw'r dewis iawn i chi.*

**Cam 2:**
Ceisiwch ragor o wybodaeth am ffermio organig:

Mae Canolfan Organig Cymru yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Rydym yn cydlynu gwasanaethau o bob math ac yn darparu gwybodaeth am amrywiaeth o faterion gan gynnwys ffermydd arddangos, grwpiau trafod, cynadleddau, cyrsiau hyfforddiant, gwasanaethau cynghori, gwybodaeth am farchnata, materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi ac eraill. I gael rhagor o fanylion, gweler tudalen 6, ac ymwelwch â'n gwefan: www.organic.aber.ac.uk


**Cam 3: Cynlluniwch eich trosiad**
Bydd angen i chi ddewis corff ardystio a chael copi o'u safonau. Ar ben hynny, y mae angen i chi baratoi cynllun trosi manwl, gan gynnwys cynlluniau cnydio, cylchdroeon, cynlluniau iechyd anifeiliaid a chyllidebau. Gallwch gael cymorth i wneud hyn drwy Gyswllt Ffermio (*Farming Connect*). Bydd y Cynllun Datblygu Busnes Fferm yn eich helpu i gynllunio'r agweddau sy'n ymwneud â busnes ac arian, ac y mae cyngor technegol pellach ar gael sy'n ychwanegu at yr wybodaeth a gawsoch drwy OCIS. Mae rhagor o gyngor ar faterion amgylcheddol hefyd ar gael drwy'r gwasanaeth Adolygu Cyfleoedd Amgylcheddol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y blwch ar dudalen 6 a chysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 08456 000813.

**Cam 4:**
Cofrestrwch gyda'ch corff ardystio dewisedig.

**Cam 5:**
Gwnewch gais am y Cynllun Ffermio Organig. I gael manylion pellach a phecyn gwneud cais, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru neu Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Cam 6**
Datblygwch system ffermio drwy drosi.
Yn gyffredinol, caniateir statws organig cymeradwy ddwy flynedd ar ôl cofrestru gyda chorff ardystio a dechrau trosi, er y gall gymryd yn hwy na hyn i'r holl uned gyrraedd y cam yma gan y gellir, o bosibl, argymell trosi gwahanol feysydd a mentrau yn raddol. Gallwch yn awr werthu eich cynnyrch fel cynnyrch organig.

## Trosi Organig: arwe



## iniad cam-wrth-gam

Cyfleoedd marchnad a gofynion y defnyddiwr/materion yr amgylchedd/iechyd a diogelwch ar y fferm

Mae Canolfan Organig Cymru ar y cyd â'i phartneriaid, yn cynnig gwybodaeth am bob agwedd ar ffermio organig gan gydlynu mynediad i'r gwasanaethau, teithiau cerdded, marchnata a chyfleoedd hyfforddi [3]

Cynnyrch Organig Ar Gael

## Nodiadau ar drosi

1. Llinell gymorth GGTO a phecyn gwybodaeth. Mae pecyn gwybodaeth trosi sy'n cynnwys y llyfryn hwn ar gael i bob ffermwr sydd â diddordeb. Mae'n cynnwys gwybodaeth amrywiol sy'n ymdrin ag egwyddorion ffermio organig.

2. Ymweliadau organig ymgynghorol. Mae GGTO yn darparu hyd at ddau ymweliad ymgynghorol gan ddau ymgynghorydd profiadol o ADAS o'r Gwasanaeth Organig Ymgynghorol.

3. Canolfan Organig Cymru. Disgrifir y gwasanaethau a ddarperir gan y Ganolfan ar dudalen 6. Ceir nifer o gyrff eraill sydd hefyd yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth. Gweler y rhestr o gysylltiadau isod.

4. Safonau organig a chyrff tystysgrifio. Mae prosesau ffermio organig yn cael eu rheoleiddio gan safonau a gymeradwyir gan y CE. Maent yn cael eu gweinyddu yn y DU gan nifer o gyrff a gymeradwyir gan y Llywodraeth sydd hefyd yn gallu arolygu a thystysgrifio daliadau organig. Gweler y rhestr o gysylltiadau.

5. Cynlluniau trosi. Rhan hanfodol o drosi'n llwyddiannus i system ffermio organig yw cynllun trosi, gan gynnwys cynlluniau cnydio manwl, cylchdroeon, cynllun rheoli iechyd anifeiliaid a chyllidebau. Gellwch ddatblygu cynllun o'r fath drwy'r cyngor busnes a thechnegol di-dâl sydd ar gael gan Gyswllt Ffermio, neu'n breifat drwy ymgynghorydd (mae Canolfan Organig Cymru'n cadw rhestr ymgynghoryddion achrededig). Gall cyngor ychwanegol ar iechyd da byw, rheoli tir glas a meysydd ffermio organig arbenigol eraill hefyd fod ar gael.

6. Cynllun Ffermio Organig. Mae Cynllun Ffermio Organig Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd lle'r hen Gynllun Cymorth Organig ac fe'i cyflwynwyd ym 1999. Am fanylion, gweler tudalen 3 uchod.

**Llinell Gymorth**
**Ffôn: 01970 622100**
Ebost: organic-helpline@aber.ac.uk

Gall galwadau gael eu monitro er mwyn hyfforddiant.

## Canolfan Organig Cymru

Gall Canolfan Organig Cymru gynorthwyo gyda phob cam o'r trosi a thu hwnt. Fe'i sefydlwyd yng Ngorffennaf 2000 i fod yn canolbwynt ar gyfer lledaenu gwybodaeth am ffermio organig yng Nghymru. Mae'r Ganolfan, a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth (PCA) ac yn cael ei rhedeg ar y cyd gan ADAS, Canolfan Ymchwil Elm Farm, Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), Sefydliad y Gwyddorau Gwledig (yn PCA) a'r *Soil Association*.

Dyma'r prif ffyrdd y gall y Ganolfan eich helpu.

**Darparu gwybodaeth**

Gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Organig rhad ac am ddim ar 01970 622100 neu anfon e-bost at organic-helpline@aber.ac.uk os oes gennych unrhyw gwestiwn technegol am ffermio organig, y proses ardystio neu unrhyw fater arall cysylltiedig. Mae gwybodaeth dechnegol a chyffredinol hefyd ar y wefan yn www.organic.aber.ac.uk, a gallwch danysgrifio i fwletinau marchnata a gwybodaeth cyffredinol Canolfan Organig Cymru sydd i'w cael ar y we bob mis. Gellir archebu amrywiaeth o ffeithlenni technegol a llyfrynnau cymorth gan y Ganolfan.

**Cyngor**

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am ddarparu cyngor o safon uchel i ffermwyr organig yng Nghymru gan gynnwys:

- Y Gwasanaeth Gwybodaeth Trosiadau Organig yng Nghymru
- Cyngor rhad ac am ddim ar reoli glaswelltir organig, a ddarperir gan IGER
- Darparu mynediad i gyngor arbenigol fel rhan o Gyswllt Ffermio
- Sicrwydd ansawdd yn gysylltiedig â'r cyngor a'r hyfforddiant organig a ddarperir o dan 'Cyswllt Ffermio'
- Cadw cofrestr o gynghorwyr organig cofrestredig sy'n cwrdd â chyfres o ofynion.

**Cyrsiau hyfforddi, cynadleddau a seminarau**

Mae Canolfan Organig Cymru yn rhedeg cyrsiau undydd mewn gwahanol fannau yng Nghymru i ffermwyr a chynhyrchwyr eraill ar agweddau technegol systemau organig, megis cynlluniau iechyd anifeiliaid a homeopathi, rheoli plâu, porfa barhaol, ffrwythlondeb pridd a rheoli tail, yn ogystal â marchnata a chynllunio trosi organig. Efallai y codir ffi bychan am y cyrsiau hyn. Mae'r *Soil Association* a Chanolfan Ymchwil Elm Farm hefyd yn cynnal digwyddiadau technegol ar ffermydd o amgylch Prydain. At hynny, trefnir cynhadledd flynyddol a chyfres o ddigwyddiadau agored i ffermwyr ar draws Cymru. Mae Canolfan Organig Cymru yn bresennol yn Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiadau eraill ledled y wlad. Mae'r *Soil Association* yn cynnal cynhadledd flynyddol ar gyfer cynhyrchwyr.

Mae Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn cynnig cwrs BSc amser llawn mewn Amaethyddiaeth Organig, yn ogystal â chyrsiau i raddedigion. Mae colegau eraill a sefydliadau ledled Cymru hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar gynhyrchu organig, gyda Choleg Garddwriaeth Cymru yn awr yn cynnig HNC/HND mewn garddwriaeth organig. Mae Canolfan Organig Cymru yn cynnig gwybodaeth am y rhain.

**Ffermydd arddangos**

Mae'r Ganolfan yn cydlynu rhwydwaith o ffermydd arddangos ymhob rhan o Gymru fel rhan o Cyswllt Ffermio, lle cynhelir troeon o gwmpas ffermydd a rhai cyrsiau hyfforddi. Mae'r rhain yn gyfle gwerthfawr i weld ffermio organig ar waith ac i drafod materion technegol âchynhyrchwyr profiadol. Yn ogystal, y mae gan Ganolfan ymchwil 'Elm Farm' rwydwaith cyffelyb yn Lloegr, tra bo gan y *Soil Association* rwydwaith o ffermydd arddangos organig sy'n agored i'r cyhoedd yn Lloegr a Chymru.

**Grwpiau trafod**

Mae'r Ganolfan hefyd yn cefnogi rhwydwaith o grwpiau trafod organig o dan Gyswllt Ffermio. Gall y rhain fod yn grwpiau arbenigol neu ranbarthol annibynnol, neu â chysylltiadau masnachol. Maent yn trefnu eu digwyddiadau eu hunain, sy'n cynnwys ymweliadau a sgyrsiau gan siaradwyr gwadd.

## Cyswllt Ffermio

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

Mae Cyswllt Ffermio, a lansiwyd ym Medi 2001, yn amcanu at ddarparu dewis da o wasanaethau i'r gymuned amaethyddol yng Nghymru, gan helpu busnesau fferm i wneud penderfyniadau cytbwys am eu dyfodol. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn cynnwys:

- Cyngor rhad ac am ddim am faterion busnes, technegol ac amgylcheddol
- Cyfleoedd hyfforddiant
- Rhwydwaith o ffermydd arddangos lleol a grwpiau trafod
- Trosiad technolegau/gwybodaeth newydd

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno drwy bum rhaglen datblygu: Ffermio Llaeth, Cig Eidion a Defaid, Organig, Defnydd o Dir Amgen, a Thir Glas. Mae Canolfan Organig Cymru yn trefnu'r rhaglen organig ac yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhwydwaith o ffermydd arddangos masnachol a thair fferm ddatblygu sefydliadol, wedi eu lleoli drwy Gymru benbaladr ac yn cwmpasu'r prif fentrau organig i gyd
- Rhwydwaith o tua 20 grŵp trafod organig
- Cyfres o gyrsiau hyfforddi a digwyddiadau i ffermwyr a chynghorwyr
- Sicrwydd ansawdd mewn perthynas â'r cyngor a'r hyfforddiant organig a ddarperir o dan y gwasanaeth
- Meincnodi ar gyfer cynhyrchwyr organig
- Casglu a lledaenu gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth am farchnata yn ogystal â chyhoeddiadau i ffermwyr organig.

# Y farchnad organig

Mae'r farchnad am gynnyrch organig wedi tyfu'n raddol gan gyrraedd £1.2 biliwn yn 2004. Mae'r DU yn parhau i fod yn farchnad organig bwysig yn Ewrop gan adlewyrchu'r galw o du cwsmeriaid am fwyd o ansawdd uchel ac amaethyddiaeth nad sy'n andwyo'r amgylchedd, ond mae'r wlad yn dal i fewnforio bron i hanner ei bwyd organig, er bod hyn yn amrywio rhwng ac o fewn i sectorau. Felly, mae cyfleoedd yn bodoli i gynyddu'r cynnyrch organig a dyfir gartref, ond mae'n hanfodol bod cynhyrchwyr sy'n trosi yn rhoi ystyriaeth ddwys i sut y bwriadant farchnata eu cynnyrch ymlaen llaw.

### Cig eidion a defaid

Cig organig yw'r rhan o'r farchnad organig sy'n tyfu gyflymaf, ac yr oedd gwerthiannau i fyny 34% (o ran cyfaint) yn 2004 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yng Nghymru, adroddodd *Graig Farm Organics* a *Cambrian Organics* bod galw da wedi bod am gig eidion a chig oen drwy gydol y flwyddyn gyda phrisiau rhesymol, er bod pethau'n amrywio o dymor i dymor. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd 6% o gynhyrchwyr cig eidion organig ac 11% o gynhyrchwyr cig oen organig yn gwerthu i'r farchnad gonfensiynol yn 2005. Y neges i ffermwyr organig yw cynllunio i werthu ŵyn pan fo cyflenwadau yn isel, neu i ystyried cynhyrchu da stôr er mwyn i eraill eu gorffen.

### Ffermio Llaeth

Yn dilyn cyfnod o orgyflenwi rhwng 2001 a 2004, mae'r sefyllfa yn gwella i ffermwyr llaeth. Adroddodd Cydweithfa'r Cyflenwyr Llaeth Organig (*OMSCo*) bod gwerthiannau am y flwyddyn a ddaeth i ben yn Ebrill 2004 yn uwch na rhai'r flwyddyn flaenorol, ac ymhell uwchlaw gweddill y farchnad fwyd organig. Canlyniad oedd y twf hwn i syniadau newydd gan gynhyrchwyr a ddaeth â mwy o gynnyrch llaeth (gan gynnwys llaeth ffres a llaeth â blas, cawsiau meddal a iogwrt) i'r sector adwerthu annibynnol, a bod amrywiaeth cynyddol o gynnyrch llaeth organig wedi eu prosesu yn cael eu gwerthu gan siopau cadwyn. Yr oedd ymchwil a ddangosai fod lefelau uwch o asidau omega ac asid linolëig cyfunedig mewn llaeth organig o'i gymharu â llaeth confensiynol hefyd yn fodd i gryfhau'r galw o du cwsmeriaid. Yng Nghymru, adeiladodd *Rachel's Dairy* estyniad newydd i'r brif ffatri brosesu yn Aberystwyth a agorwyd yn 2004, fel y medrid cynhyrchu deirgwaith cymaint â'r lefel flaenorol o 5 miliwn litr.

### Garddwriaeth

Mae pobl sy'n mentro prynu cynnyrch organig am y tro cyntaf yn aml yn dechrau trwy brynu ffrwythau a llysiau. Yn y 1990au ac ar ddechrau'r ganrif bresennol, yr oedd y farchnad lysiau organig yn tyfu ar gyfradd o 30% y flwyddyn ar gyfartaledd. Ers hynny, arafodd y twf a sefydlogodd y farchnad . Yn 2004, £197miliwn oedd gwerth adwerthol y farchnad lysiau organig, sef cynnydd o 16.5% oddi ar y flwyddyn flaenorol, ond dim ond 2.5% o gynnydd a gafwyd o safbwynt gwerth 'clos y fferm'. Mae'r sector 'pacio o flaen llaw' yn awr mewn cyfnod newydd gyda phwysau ar ostwng prisiau – a hynny, i raddau helaeth, yn ganlyniad i gystadleuaeth rhwng prisiau siopau cadwyn – ond y mae'r marchnadoedd uniongyrchol/lleol yn dal i fwynhau cyfnod o dwf sydyn.

### Ffermio tir âr

Mae'r sector tir âr yn gymharol fychan yng Nghymru, ac y mae 90% o'r tir amaethyddol yn laswelltir. Mae cyfanswm y tir âr sy'n gwbl organig yng Nghymru cyn lleied â 5% o'r tir, ac nid yw cynhyrchwyr a phrosesau organig yng Nghymru yn gwbl hunangynhaliol o safbwynt porthiant anifeiliaid na chnydau i'w melino. O ganlyniad, y mae Cymru yn mewnforio llawer o gnydau organig. Mae marchnadoedd yn dra dibynnol ar y tywydd, ansawdd grawn yn ystod ac ar ôl y cynhaeaf, a'r galw am borthiant anifeiliaid (a bennir gan y tywydd). Yn 2004, bu lleihad sydyn yn y stociau o farlys porthi, rhygwenith, a cheirch porthi a melino, a dechreuodd y farchnad ar gyfer graddau canolradd o wenith melino agor. Cliriodd y gwenith porthi yn raddol o ffermydd, ond fel yr aeth y flwyddyn yn ei blaen, amharwyd ar brisiau gan y rhan-ddirymiad a oedd yn caniatáu defnyddio cyfran o borthiant nad oedd yn organig yn yr Undeb Ewropeaidd.



Photo: Supplied by FBA

### Porc a dofednod

Cyfran cymharol fach o'r farchnad am gynnyrch organig yw cig moch. Mae porc ffres yn cynrychioli 1%, bacwn 1%, a selsig llai nag 1% o'r farchnad organig at ei gilydd. Yn ystod 2004, gwerthwyd mwy o borc ffres yn ogystal â bacwn organig. Ar ddiwedd y cyfnod, fodd bynnag, gwerthwyd llai o borc a llai o gigoedd tafellog wedi eu coginio.

Yr oedd cyfradd y twf yng ngwerthiannau dofednod organig yn uwch nag a welwyd yn unrhyw sector cig arall yn ystod 2004. Yn ôl data TNS, yr oedd dofednod ffres yn 2% o holl farchnad bwyd organig, a chyfrannodd y cynnydd yng ngwerthiant dofednod wedi eu pacio ymlaen llaw at y twf cyffredinol yng ngwerthiant cig organig yn 2004. Yng Nghymru, agorodd *S & J Organics* ladd-dy dofednod organig trwyddedig yn Llwyncrychyddod, Llanpumsaint, Caerfyrddin yn 2004. I gael rhestr gylawn o ladd-dai, gweler, www.organic.aber.ac.uk/markets/suppliers.shtml

### Cymorth a chyngor

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y sefyllfa o safbwynt y farchnad ynghyd â phrisiau organig yn rhifyn cyfredol yr *Organic Farm Management Handbook* ac yng nghylchgrawn chwarterol y *Soil Association,* sef *Organic Farming*. Mae Canolfan Organig Cymru wedi comisiynu adroddiadau sy'n darparu gwybodaeth am y farchnad i'r sectorau cig coch, ffermio llaeth a garddwriaeth, ac y mae'n cynhyrchu bwletin misol am y farchnad organig yng Nghymru, sef Marchnad Organig Cymru. Gellir llwytho copïau o'r adroddiadau i lawr oddi ar wefan Canolfan Organig Cymru. I danysgrifio i'r bwletin, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru (01970 622248, organic@aber.ac.uk). Mae'r Isadran Datblygu Bwyd a'r Farchnad Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig cymorth ar gyfer datblygu marchnata a phrosesu organig, gan gynnwys grantiau. Mae rhagor o wybodaeth hefyd i'w chael ar wefan Canolfan Organig Cymru.

## Rhestr o gysylltiadau

**Cyrff ardystio**
Ardystio Bwyd Cymreig Safonol Cyf
Ascisco Ltd.
Biodynamic Agricultural Association
CMi Certification
Organic Farmers & Growers Ltd
Organic Food Federation
Soil Association Certification Ltd

**Cwmnïau cynghori**
Abacus Organic Associates
ADAS Consulting Ltd
Gaia Professional
Organic Advisory Service

**Cyrff sy'n cefnogi ffermwyr organig**
Biodynamic Agricultural Association
Elm Farm Research Centre
HDRA (Garden Organic)
Canolfan Organig Cymru
Soil Association Producer Services

**Sefydliadau ymchwil ac addysgol**
ADAS Pwllpeiran
Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd
Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, PCA
Coleg Garddwriaeth Cymru

**Asiantaethau'r Llywodraeth**
Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyswllt Ffermio
Isadran Datblygu Bwyd a'r Farchnad

### Darllen pellach

*Organic Farming* gan Nic Lampkin, Ipswich: Farming Press.
*Organic Farm Management Handbook* Cyhoeddwyd gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth a'r Gwasanaeth Cynghori Organig (OAS), £12.00.
*Organic Farming*, cylchgrawn chwarterol a gyhoeddir gan y Soil Association. Tanysgrifiad blynyddol £15.00 (rhad ac am ddim i aelodau sy'n gynhyrchwyr).
*Elm Farm Research Centre Bulletin*, cyhoeddir bob yn ddeufis gan Ganolfan Ymchwil Elm Farm. Tanysgrifiad blynyddol £11.00.

Mae rhestr cyhoeddiadau, sy'n cynnwys y llyfrau uchod a llyfrynnau technegol eraill, ar gael gan Ganolfan Organig Cymru. Mae catalog llyfrau rhad ac am ddim sy'n nodi llawer o gyhoeddiadau eraill cysylltiedig â ffermio organig i'w cael gan y *Soil Association*.

## Cyfeiriadau a rhifau cyswllt

**Abacus Organic Associates Ltd**
61 Robey Park Road, Neston, South Wirral, Cheshire CH64 9SW.
Ffôn: 0151 336 2506
gareth.jones@abacusorganic.co.uk
www.abacusorganic.co.uk

**ADAS Consulting Ltd**
Henstaffe Court Business Centre, Groesfaen, Caerdydd CF74 8NG
Ffôn: 029 2089 9100; Ffacs: 029 2089 0054
Christine.jones@adas.co.uk
www.adas.co.uk

**ADAS Pwllpeiran**
Cwmystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4AB
Ffôn: 01974 282229; Ffacs: 01974 282302
David.Frost@adas.co.uk
www.adas.co.uk

**Ardystio Bwyd Cymreig Safonol Cyf. (Quality Welsh Food Certification)**
Blwch Postio 8, Gorseland, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2WB
Ffôn: 01970 636688, Ffacs (01970)624049
qwfc@wfsagri.net

**Ascisco Ltd**
Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9LJ.
Ffôn: 0845 121 2321; Ffacs 0845 121 2322
wales.cert@soilassociation.org
www.soilassociation.org/certification

**Asiantaeth yr Amgylchedd**
Galwch 0845 9333111 i gael eich cysylltu â'ch swyddfa leol.
enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

**Biodynamic Agricultural Association**
Demeter Scheme Coordinator, 17 Inverleith Place, Edinburgh, EH3 5QF
Ffôn: 0131 624 3921; Ffacs: 0131 476 2996
fionajmackie@hotmail.com
www.anth.org.uk/biodynamic

**Canolfan Organig Cymru**
Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 622248; Ffacs: 01970 622238
organic@aber.ac.uk
www.organic.aber.ac.uk

**CMi Certification**
Long Hanborough, Oxford, OX29 8LH
Ffôn: 01993 885610; Ffacs: 01993 885611
organics@cmi.plc.com
www.cmi-plc.com

**Coleg Garddwriaeth Cymru**
Northop, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6AA
Ffôn: 01352 841000; Ffacs: 01352 841031
enquiries@wcoh.ac.uk
www.wcoh.ac.uk

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2LQ
Ffôn: 01248 370444; Ffacs: 01248 355782
www.ccw.gov.uk

**Cyswllt Ffermio / *Farming Connect***
08456 000813
www.wales.gov.uk/farmingconnect

**Elm Farm Research Centre**
Hamstead Marshall, Newbury, Berks, RG20 0HR
Ffôn: 01488 658279; Ffacs: 01488 658503
elmfarm@efrc.com
www.efrc.com

**Gaia Professional Ltd**
Dan Powell, Aeron Parc, Llangeitho, Tregaron, Ceredigion SY25 6TT
Tel: 08453 243839 Mobile: 07887 678780
Fax: 07092 158778
Dan@gaiapro.com

**HDRA (Garden Organic)**
Ryton Organic Gardens, Coventry CV8 3LG
Ffôn: 024 7630 3517; Ffacs: 024 7663 9229
enquiry@hdra.org.uk
www.hdra.org.uk

**Isadran Datblygu Bwyd a'r Farchnad**
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

**Organic Advisory Service**
Gweler Elm Farm Research Centre; e-bost oas@efrc.com

**Organic Farmers & Growers Ltd**
The Elim Centre, Lancaster Road, Shrewsbury, Shropshire SY1 3LE
Ffôn: 01743 440512; Ffacs: 01743 461441
info@organicfarmers.uk.com
www.organicfarmers.uk.com

**Organic Food Federation**
31 Turbine Way, Eco Tech Business Park, Swaffham, Norfolk PE37 7XD
Ffôn: 01760 720444; Ffacs: 01760 720790
info@orgfoodfed.com
www.orgfoodfed.com

**Sefydliad y Gwyddorau Gwledig**
Prifysgol Cymru Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL
Ffôn: 01970 624471; Ffacs 01970 611264
irs-enquiries@aber.ac.uk
www.irs.aber.ac.uk

**Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER)**
Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB
Tel: 01970 823000, Fax: 01970 828357
Heather.McCalman@bbsrc.ac.uk
www.iger.bbsrc.ac.uk

**Soil Association Certification Ltd**
Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 0845 121 2321; Ffacs 0845 121 2322
wales.cert@soilassociation.org
www.soilassociation.org/certification

**Soil Association Food and Farming Dept**
Bristol House, 40-56 Victoria Street, Bristol BS1 6BY
Ffôn: 0117 914 2400; Ffacs: 0117 925 2504
ff@soilassociation.org
www.soilassociation.org

### Swyddfeydd Rhanbarthol Llywodraeth Cynulliad Cymru

www.cefngwlad.cymru.gov.uk

**Caernarfon** (yn gyfrifol am Wynedd a Chlwyd)
Swyddfa Ranbarthol Caernarfon, Adeiladau'r Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1EP
Ffôn: 01286 674144; Ffacs: 01286 677749
agriculture.caernarfon@wales.gsi.gov.uk

**Llandrindod** (yn gyfrifol am Bowys, Gwent, De a Gorllewin Morgannwg a Morgannwg Ganol)
Swyddfa Ranbarthol Llandrindod Wells, Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys LD1 5HA
Ffôn: 01597 823777; Ffacs: 01597 828304
agriculture.llandrindod@wales.gsi.gov.uk

**Caerfyrddin** (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro)
Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin, Adeiladau'r Llywodraeth, Rhesdai Picton, Caerfyrddin SA31 3BT
Ffôn: 01267 225300; Ffacs: 01267 235964
agriculture.carmarthen@wales.gsi.gov.uk

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw weithredoedd a gyflawnwyd ar sail ei chyhoeddiadau.*



*Adolygwyd Mis Chwefror 2006*